Ysgol Gynradd Blaenau

| | | |
|---|---|---|
| | **Polisi Ymddygiad** | |

| | |
|---|---|
| | • Erthygl 19: Ni ddylech gael eich niweidio a dylech gael gofal a'ch cadw'n ddiogel.<br>• Erthygl 29: Yr hawl i fod y gorau y gallwch fod.<br>• Erthygl 28: Yr hawl i ddysgu a mynd i'r ysgol.<br>• Erthygl 12: Yr hawl i ddweud beth ddylai ddigwydd ac i rywun wrando arnoch. |

**Polisi Ymddygiad Ysgol Blaenau**

Cyflwyniad

Prif nod yr ysgol yw sicrhau fod pob aelod o gymuned yr ysgol yn teimlo'n ddiogel ac yn werthfawr a fod pob person yn cael ei drin yn deg ac yn ystyrlon. Mae gan yr ysgol ddisgwyliadau ymddygiad uchel ac mae ein Polisi Ymddygiad yn sicrhau fod pawb, yn blant ac yn oedolion, yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus. Mae gan bawb yr hawl i ddysgu , cyflawni ac i fod yn llwyddiannus.

Nodau

- Sicrhau amgylchedd dysgu diogel drwy greu awyrgylch pwrpasol a hapus ar gyfer disgyblion , staff a rhieni.
- Creu ethos sy'n sicrhau fod pawb yn parchu ac yn ymddiried yn ei gilydd.
- Hyrwyddo hunan werth yr unigolyn drwy ganmoliaeth ac atgyfnerthu cadarnhaol.
- Annog hunan ddisgyblaeth yr unigolyn er mwyn sicrhau ymddygiad da.
- Rhannu Polisi Ymddygiad yr ysgol gyda holl rhanddeiliaid yr ysgol.

Hawliau Plant

Mae'r hawliau hyn yn bethau sydd angen ar blant a phobl ifanc i fod yn ddiogel, yn iach ac yn hapus. Mae gan y Cenhedloedd Unedig restr o'r holl hawliau sydd gan blant. Enw'r rhestr hon yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

- Erthygl 3: Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant bob amser wneud yr hyn sydd orau i bob plentyn.
- Erthygl 19: Ni ddylech gael eich niweidio a dylech gael gofal a'ch cadw'n ddiogel.
- Erthygl 29: Yr hawl i fod y gorau y gallwch fod.
- Erthygl 28: Yr hawl i ddysgu a mynd i'r ysgol.

- Erthygl 12: Yr hawl i ddweud beth ddylai ddigwydd ac i rywun wrando arnoch.

Rheolau a Gwerthoedd
Y mae cyfrifoldeb disgyblaeth ysgol yn nwylo'r Pennaeth ond mae'rn fater i bawb sydd â chysylltiad â'r ysgol gan gynnwys y rhieni. Disgwylir i bob plentyn ymddwyn yn dderbyniol ac fel aelod o gymdeithas o fewn yr ysgol. Anogir pob disgybl i ddilyn rheolau yr ysgol a rhestrir isod.
Rheolau:

- Gwnewch eich gorau glas bob amser
- Parchwch eich gilydd a phethau eich gilydd
- Ymdrechwch i siarad Cymraeg bob amser
- Byddwch yn ffrind i bob un
- Byddwch yn gwrtais bob amser

Gwerthoedd

- Parch
- Hapusrwydd
- Caredigrwydd
- Hyder
- Gweithgar
- Gwybodus

Strategaethau hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol

- Addysgu o ansawdd da
- Disgwyliadau uchel clir a chyson
- Clod am ymddygiad da
- Dathlu llwyddiant o fewn y dosbarth ac mewn gwasanaethau gwobrwyo ysgol gyfan
- Gwrando ar lais y disgybl ynglŷn â rheolau a goblygiadau
- Cydnabyddiaeth am ymddygiad sy'n gwella
- Rhoi cyfrifoldebau i ddisgyblion
- Rhoddir dau rybudd i ddisgyblion am gamymddwyn.
- Os yw'r plentyn yn gwrthod cydymffurfio, yna, cymerir y plentyn i un ochr er mwyn trafod beth yw'n bod a cheisio canfod gwraidd y camymddwyn. Yn ystod y cyfnod yma bydd y staff yn ceisio tawelu pryderon y plentyn.
- Mae disgyblion sydd yn teimlo yn anhapus neu'n ansefydlog ac yn methu cydymffurfio, yn cael cyfle i ymdawelu yn y Cwtch gan ddefnyddio siart strategaethau ymdawelu.
- Rydym yn ffocysu ar ymddygiad da yn Ysgol Blaenau.

**Canlyniadau**

**Ar Draws yr ysgol**

Yn dilyn ymyrraeth gynnar gan yr ysgol, os yw ymddygiad disgybl yn parhau i beri pryder dylid defnyddio'r strategaethau perthnasol o'r rhestr isod.

- Trafodaeth gyda rhieni/gwarchodwyr
- Llyfr Cyswllt Cartref
- Cynllun Ymddygiad Unigol neu Cynllun Ymyrraeth positif
- Defnydd siart ABC er mwyn cofnodi digwyddiadau ac adnabod sbardun ymddygiad negyddol
- Strategaethau gwobrwyo personol (siart ymddygiad)
- Penodi 'person dynodedig' i gefnogi'r disgybl
- Cyfeirio i'r Awdurdod Addysg Lleol

**Dim goddefgarwch**

Mae'r ysgol wedi cytuno nad oes dim goddefgarwch o fewn yr ysgol mewn perthynas â'r ymddygiadau canlynol:
• Cam-drin geiriol tuag at staff a disgyblion gan gynnwys defnydd o iaith sarhaus
• Cam-drin corfforol tuag at staff a disgyblion gan gynnwys cicio, dyrnu, brathu, poeri a phinsio.

**Addasiadau Rhesymol**

Gwneir addasiadau rhesymol wrth weithredu'r polisi yn unol â gofynion disgyblion unigol.

Trafodwyd y polisi mewn cyfarfod staff ar ______________________________

Cytunwyd ar y polisi (arwyddo)